Syr Wyn Williams
Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

22 Gorffennaf 2020

Annwyl Syr Wyn

**Ymchwiliad ym maes Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru**

Diolch yn fawr i chi am ddod i'n cyfarfod ar 13 Gorffennaf fel rhan o'n hymchwiliad ym maes Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru ac yn sgîl hynny, am gymryd rhan yn y sesiwn dystiolaeth gyntaf o'i math o ran y gwaith craffu ffurfiol ar faterion cyfiawnder yn y Senedd.

Nid oeddem wedi gallu mynd i'r afael â nifer o faterion, ynghyd â materion eraill y gwnaethoch eu nodi fel bod eisiau eu hystyried ymhellach. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod:

1. Sut ddylai'r Senedd graffu ar weinyddiaeth Tribiwnlysoedd Cymru, a swyddogaethau cyfiawnder datganoledig yng Nghymru?

2. Sut dylai'r Senedd ymgysylltu â Thribiwnlysoedd Cymru wrth ddatblygu eu rôl, a datblygu cyfraith weinyddol newydd?

3. Beth yw'r rhesymau dros y 'gorwariant sylweddol' yn 2019-20 y cyfeiriwyd ato yn eich ail adroddiad blynyddol?

4. Beth yw eich barn ar lefel y data a'r wybodaeth am wariant a pherfformiad sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau blynyddol ar gyfer pob tribiwnlys?

5. Pa sylwadau pellach – os o gwbl – yr hoffech eu gwneud o ran mewnbwn allanol ar baratoi adroddiadau blynyddol tribiwnlys? [Gweler paragraffau 97-98 o drawsgrifiad y cyfarfod].

6. Pa sylwadau pellach – os o gwbl – fyddech chi'n eu gwneud o ran casglu data Cymreig penodol? [Gweler paragraffau 120 a 128 o drawsgrifiad y cyfarfod].

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Byddwn yn croesawu ymateb erbyn 16 Medi 2020.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.